**CYNLLUN GWEITHREDU** **ATODIAD 1**
**CYSONI INCWM PARCIO A DIRWYON**

| Rhif Argymhelliad | Argymhelliad | Ymateb gan yr Uned Parcio | Sylwadau Rheolwr Parcio a Diogelwch y Ffyrdd | Cyfrifoldeb Gweithredu | Cyfrifoldeb Sicrhau Gweithrediad | Dyddiad Gweithredu Targed | Wedi Gweithredu Do/naddo | System/au rheoli | Sylwadau Pellach |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A01 | Gan fod tocynnau parcio wedi eu rhifo'n olynol dylid sicrhau fod cofnod manwl yn cael ei gadw o ddosbarthiad y tocynnau. Dylai'r tocynnau hyn gael eu dyroddi allan gan y Rheolwr Gorfodaeth er mwyn sicrhau'r rheolaeth. | • Mae'r uned parcio eisoes wedi adolygu trefniadau rheoli stoc tocynnau parcio yn unol ar argymhelliad<br>• Bydd ein trefniadau yn sicrhau gwell rheolaeth pan fydd rholiau tocynnau yn cael eu dosbarthu i wahanol beiriannau ar draws y Sir | Cytuno gyda'r argymhelliad | Rheolwr Gorfodaeth Parcio | Rheolwr Parcio/DFF | 10/11/11 | **Naddo** | | System drafft wedi'i baratoi. Bydd hwn yn weithredol 10/11/11 |
| A02 | Dylid sicrhau fod Security Plus Ltd yn danfon copi gwreiddiol o docynnau traul archwilio'r peiriannau parcio maent wedi eu hagor a'u gwacáu yn brydlon i'r Uned Parcio. | • Dylid nodi bod "print" ar y tocynnau gwreiddiol yn *colli lliw* dros gyfnod o amser. Eglurwyd hyn i'r Uwch Archwiliwr.<br>• Cynhaliwyd cyfarfod gyda swyddog o Gwmni Security Plus 25/10/11 i drafod yr argymhelliad<br>• Cytunwyd y bydd tocynnau traul gwreiddiol a ffotocopi yn cael eu hanfon i'r Uned Parcio oddi fewn 7 diwrnod o'r casgliad. | Cytuno gyda'r argymhelliad | Goruchwyliwr Gweinyddol Parcio | Rheolwr Parcio/DFF | 26/10/11 | **Do** | Ffeil yn cael ei chadw yn yr Uned Parcio o dan Rheolaeth Goruchwyliwr Gweinyddol Parcio | Dilyn cyfarfod 25/10/11 mae Cwmni Security Plus wedi cychwyn danfon llun gopi o'r tocynnau traul, copi o'r 'Schedule' a tocynnau traul gwreiddiol. |
| A03 | Unwaith bydd trefniadau mewn lle i dderbyn y tocynnau traul archwilio yn rheolaidd oddi wrth Security Plus Ltd dylid gwirio fod rhifau'r tocynnau yn dilyn yn olynol ar gyfer pob peiriant talu ac arddangos a agorwyd ganddynt, er mwyn sicrhau cyflawnrwydd y casgliadau. | • Mae swyddogion o'r Uned Parcio wedi trafod y ffordd ymlaen gyda chwmni Security Plus yn nhermau sicrhau cyflawnrwydd y casgliadau. | Cytuno gyda'r argymhelliad | Goruchwyliwr Gweinyddol Parcio | Rheolwr Parcio/DFF | 26/10/11 | **Do** | Bas data wedi cael ei gynhyrchu i nodi rhifau tocynnau traul bob Peiriant sydd o dan reolaeth yr Uned Parcio a Rheolaeth Goruchwyliwr Gweinyddol Parcio. | Mae Cwmni Security Plus wedi dechrau danfon llun gopi o'r tocynnau traul, copi o'r 'Schedule' a tocynnau traul gwreiddiol. |
| A04 | Dylai'r Uned Parcio wirio cynnwys yr atodlenni sydd ynghlwm i'r anfonebau am eu cywirdeb a hysbysu Security Plus Ltd yn syth am unrhyw newidiadau i drefniadau casglu o'r peiriannau. | • Mae'r gwaith yn cael ei gwblhau a'i fonitro nawr gan Oruchwyliwr Gweinyddol Parcio er mwyn sicrhau cysondeb a chywirdeb yr anfonebau.<br>• Credir bod ein systemau ar gyfer yr Uned Parcio yn dderbyniol.<br>• Yn nhermau prosiect Agoriad Gwyrdd, nid Goruchwyliwr Gweinyddol Parcio sydd yn monitro casgliadau Agoriad Gwyrdd.<br>• Mae hyn yn cael ei wneud gan Megan Hughes, swyddog Agoriad Gwyrdd y Cyngor. | Cytuno gyda rhan argymhelliad sy'n berthnasol i'r uned parcio | Goruchwyliwr Gweinyddol Parcio | Rheolwr Parcio/DFF | 26/10/11 | **Do** | | Hyn yn digwydd yn bresennol gyda 'Schedule' yr Uned Parcio.<br><br>*Nid cyfrifoldeb yr Uned Parcio yw gwirio rhaglenni casglu Goriad Gwyrdd. Cyfrifoldeb Partneriaeth Goriad Gwyrdd yw hyn.* |
| A05 | Dylid ymdrechu i dalu'r anfonebau o fewn 10 diwrnod o'u derbyn yn unol â chyfarwyddiadau Llywodraeth Cymru. | • Nodwyd y pwynt bod angen talu'r anfonebau mewn 10 diwrnod.<br>• Mae'r Rheolwr Parcio wedi trafod yr argymhelliad gyda Goruchwyliwr Gweinyddol Parcio er mwyn sicrhau bod yr anfonebau yn cael eu talu mewn 10 diwrnod gwaith.<br>• Dylid nodi bod anawsterau yn bodoli drwy ddiffyg derbyn *atodlen casglu arian* gyda'r anfoneb gan Security Plus. | Cytuno gyda'r argymhelliad | Goruchwyliwr Gweinyddol Parcio | Rheolwr Parcio/DFF | 10/11/11 | **Naddo** | | Angen trafodaethau pellach i drafod derbyn anfonebau wedi'r gwaith cael ei gwblhau a sicrhau cysondeb |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | • Eglurwyd i'r Cwmni mewn cyfarfod 25/10/11 bydd angen iddynt wella eu trefniadau er mwyn cysoni a chydymffurfio ar gytundeb.<br>• Fel yr eglurwyd i'r Archwilydd mae Security Plus yn anfon anfonebau *misol* o flaen llaw sydd ychwaith ddim yn dderbyniol.<br>• Dylid nodi, bod nifer o gwestiynau angen eu hateb gan Security Plus yn nhermau eu hoblygiadau nhw hefyd o dan y cytundeb ee diffyg derbyn copi misol o'r atodlen casglu arian.<br>• Yr ydym yn derbyn bod anghysondebau yn ein trefniadau presennol i dalu ein hanfonebau mewn 10 diwrnod ond dylid cofio ni ellir talu anfoneb am waith sydd heb eu cwblhau.<br>• Yn aml yr ydym yn derbyn anfoned mis o flaen llaw ac felly mae rhaid cadw gafael arno tan mae'r gwaith wedi'i gwblhau, sydd felly yn mynd dros y 10 diwrnod | | | | | | | |
| A06 | Dylai'r Uned Parcio ddefnyddio'r adroddiadau "GCCP Reconciliation" a dderbynnir oddi wrth Security Plus Ltd i gadarnhau fod y peiriannau wedi eu gwacáu yn brydlon ac i amlygu unrhyw anghysondebau yng nghyfanswm yr arian a gesglir. | • Yn dilyn cyfarfod gyda Chwmni Security Plus 25/10/11 mae system yn ei le i adnabod unrhyw anghysondebau parthed cyfansymiau'r arian a gesglir. | Cytuno gyda'r argymhelliad | Goruchwyliwr Gweinyddol Parcio | Rheolwr Parcio/DFF | 1/11/11 | **Do** | Ffeil yn cael ei chadw yn yr Uned Parcio o dan Rheolaeth Goruchwyliwr Gweinyddol Parcio. | • Dilyn cyfarfod 25/10/11 mae Cwmni Security Plus wedi dechrau danfon llun gopi o'r tocynnau traul, copi o'r 'Schedule' a tocynnau traul gwreiddiol yn wythnosol.<br>• 'Schedules' yn cael ei monitro yn wythnosol gan Goruchwyliwr Gweinyddol Parcio<br>• Os bydd broblemau yn amlygu eu hunain, byddwn yn cysylltu â Security Plus yn syth. |
| A07 | Dylai'r Goruchwylwyr Parcio lawr lwytho manylion o'r peiriannau parcio sydd o fewn Menter Goriad Gwyrdd Eryri i'w peiriant llaw PSION fel bod yr wybodaeth yn cael ei drosglwyddo i system Metric Group. | • Cyn cytuno i lawr lwytho manylion peiriannau parcio sydd o dan reolaeth Agoriad Gwyrdd, bydd angen cynnal trafodaethau gyda phartneriaethau eraill (AG) ee Parc Cenedlaethol Eryri cyn ymgymryd â'r gwaith. | • Dylid nodi nid yr Uned Parcio sy'n gyfrifol am reoli/gwasanaethu peiriannau talu ag arddangos Menter Goriad Gwyrdd Eryri (MGGE)<br>• Partneriaeth ydi MGGE, rhwng Cyngor Gwynedd, Conwy a Pharc Cenedlaethol Eryri. | Uwch Rheolwr Trafnidiaeth a Gofal Stryd/Rheolwr Parcio | Rheolwr Parcio/DFF | 20/11/11 | **Naddo** | | Bydd angen cynnal trafodaethau gyda'r Partneriaethau i gyd i benderfynu os ydi'n bosib gweithredu yn unol â'r argymhelliad. |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A08 | Dylid sicrhau fod peiriannau parcio talu ac arddangos cynllun Menter Goriad Gwyrdd Eryri yn cael eu cynnwys a'u cysoni ar system parcio Metric Group. | • Derbynnir bod "cysoni" yn bwysig yn nhermau cynnal a chasglu arian oll beiriannau talu ag arddangos y Cyngor<br>• Bydd angen trafod unrhyw newidiadau gyda swyddogion Goriad Gwyrdd a phartneriaethau eraill (fel yr uchod) cyn ystyried y mesur yma. | • Bydd angen trafod unrhyw newidiadau gyda swyddogion MGGE cyn newid y drefn bresennol | Uwch Rheolwr Trafnidiaeth a Gofal Stryd/Rheolwr Parcio | Rheolwr Parcio/DFF | 20/11/11 | **Naddo** | | Er gwybodaeth – Nid oes gan Goriad Gwyrdd gontract Peiriannau gyda Metric, felly ni ellir lawr lwytho gwybodaeth o'r 'psion' ai cysoni gyda'r Schedule |
| A09 | Er mwyn sicrhau cysondeb yn nhrefniadau monitro incwm y meysydd parcio dylid sicrhau fod y peiriannau parcio o fewn cynllun Menter Goriad Gwyrdd Eryri yn dod yn rhan o oruchwyliaeth yr Uned Parcio yn Neuadd y Dref Bangor. | • Nodaf sylwadau'r Archwilydd ynglŷn ar bwynt yma.<br>• Bydd angen trafod hyn ymhellach gyda Menter Goriad Gwyrdd Eryri cyn cytuno ar y mesur yma. | Bydd angen trafod unrhyw newidiadau gyda MGGE cyn newid y drefn bresennol. | Uwch Rheolwr Trafnidiaeth a Gofal Stryd/Rheolwr Parcio | | 20/11/11 | **Na** | | |
| A10 | Dylid cyfarwyddo cwmni casglu Security Plus Ltd i hysbysu'r Uned Parcio yn hytrach na'r Goruchwylwyr Parcio os ydynt yn darganfod peiriant wedi torri. Dylai'r Goruchwylwyr eu hunain hysbysu'r Uned Parcio yn brydlon yn ogystal os ydynt yn darganfod peiriannau wedi torri. | • Yn dilyn cyfarfod gyda Chwmni Security Plus 25/10/1, cytunwyd i newid y drefn.<br>• Trefniadau yn eu lle i'r Cwmni hysbysu'r Uned Parcio yn gyntaf yn hytrach na'r Goruchwylwyr Parcio os ydynt yn darganfod peiriant wedi torri / diffygiol.<br>• Rhaid cofio bod pob peiriannau talu ag arddangos yn cael eu goruchwylio pob dydd (bore) gan unai'r Uwch Swyddogion Parcio neu swyddogion eraill sydd wedi derbyn hyfforddiant i arolygu peiriannau talu ag arddangos.<br>• Cytunwyd gyda Chwmni Security Plus ar y 25/10/11 i gysylltu yn uniongyrchol gyda'r swyddfa gefn (uned parcio) i hysbysu os oes peiriant wedi torri.<br>• Cytunwyd hefyd i anfon e bost i'r Goruchwyliwr Gweinyddol Parcio i hysbysebu hyn.<br>• Rheolwr Gorfodaeth Parcio wedi briffio swyddogion gorfodaeth parcio i sicrhau cydymffurfiad gyda'r argymhelliad. | Cytuno a'r argymhelliad | Rheolwr Gorfodaeth/ Goruchwyliwr Gweinyddol Parcio | Rheolwr Parcio/DFF | 26/10/11 | **Do** | | • Swyddogion Parcio wedi cyfarfod gyda Security Plus 25/10/2011 i drafod y mater, maent wedi cytuno i gysylltu yn uniongyrchol ar Uned Parcio (Swyddfa Gefn) drwy ffon ac e-bost.<br>• Swyddogion Gorfodaeth Parcio wedi derbyn cyfarwyddyd i adael i'r swyddfa gefn wybod am unrhyw ddiffygion gyda'r peiriannau. |
| A11 | Dylai'r Uned Parcio gyfarwyddo Security Plus Ltd i gynnwys rhifau'r tocynnau traul archwilio ar y daflen cysoni. | • Yn dilyn cyfarfod gyda Chwmni Security Plus 25/10/1, trefniadau bellach yn ei lle ar gyfer newid y drefn<br>• Cwmni Security Plus wedi cytuno rhoi rhifau Traul ar y daflen cysoni | Cytuno a'r argymhelliad | Goruchwyliwr Gweinyddol Parcio | Rheolwr Parcio/DFF | 26/10/11 | **Do** | Goruchwyliwr Gweinyddol Parcio i fonitro yn wythnosol. | |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A12 | Dylai'r Uned Gyllid Grŵp Amgylchedd dderbyn adroddiad yn fisol o achosion ble mae swyddogion yr Uned Parcio wedi dileu dirwyon. Dylid dewis sampl o ddirwyon sydd wedi eu dileu er mwyn derbyn eglurhad a chyfiawnhad o'r rhesymau dros ddileu'r dirwyon. | • Cyfarfod wedi cymryd lle gyda Rheolwr Cyllid Amgylchedd, Goruchwyliwr Gweinyddol Parcio a Rheolwr Parcio i drafod creu system ar gyfer "sample testing" o ddirwyon sydd wedi eu dileu<br>• Bydd angen addasu'r system (Si-Dem) bresennol ar gyfer y weithred yma | Cytuno gyda'r argymhelliad | Goruchwyliwr Gweinyddol Parcio/Rheolwr Parcio/DFF | | 1/12/11 | **Naddo** | | • Trafodaethau cychwynnol wedi cymryd lle gyda Chwmni Spur (1/11/11) a Partneriaeth Prosesau Cosbau Cymru i greu system i alluogi'r argymhelliad.<br>• Bydd costau yn gysylltiedig i gyflawni'r weithred yma.<br>• Dylid nodi bod "sample testing" ar gael yn bresennol gan PPCC ac i greu system unigryw i Wynedd bydd angen sefydlu prosesau newydd. |
| A13 | Dylai'r Uned Gyllid Grŵp Amgylchedd a'r Uned Parcio gysoni'r incwm sy'n ymddangos ar "Si-Dem Debt Management System" i'r incwm fel sy'n ymddangos ar Gyfriflyfr y Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. | • Trafodaethau wedi cymryd lle rhwng Rheolwr Parcio/DFF a Rheolwr Cyllid Amgylchedd i sicrhau cyflawni'r argymhelliad<br>• Bydd angen addasu'r system (Si-Dem) bresennol ar gyfer y weithred yma. | Cytuno gyda'r argymhelliad | Goruchwyliwr Gweinyddol Parcio/Rheolwr Parcio/DFF | | 1/12/11 | **Naddo** | | • Trafodaethau cychwynnol wedi cymryd lle gyda PPCC ar gyfer creu mynediad i'r adran gyllid i ddefnyddio'r system. |
| A14 | Dylai'r Uned Parcio dalu'r arian a dderbynnir i mewn i Fanc Barclays ym Mangor o leiaf unwaith yr wythnos. | • Yn achlysurol mae rhai taliadau dirwyon parcio yn cael ei derbyn yn Neuadd y Dref, Bangor.<br>• Rydym yn derbyn bod angen gwella ein trefniadau "bancio" yn unol ag argymhelliad yr Archwilydd. | Cytuno gyda'r argymhelliad | Goruchwyliwr Gweinyddol Parcio | Rheolwr Parcio/DFF | 26/10/11 | **Do** | Goruchwyliwr Gweinyddol Parcio yn bancio'r arian. | Staff Swyddfa Gefn wedi'i briffio |
| A15 | Dylid sicrhau fod y dirwyon am barcio ar y stryd yn cael eu codio i gyfrif KP71 8322 a dirwyon am barcio yn anghyfreithlon mewn meysydd parcio yn cael ei godio i gyfrif KP31 8314. | • Mater wedi'i drafod yn gyda'r Goruchwyliwr Gweinyddol Parcio.<br>• System eisoes yn ei le yn unol ar argymhelliad. | Cytuno gyda'r argymhelliad | Goruchwyliwr Gweinyddol Parcio | Rheolwr Parcio/DFF | 26/10/11 | **Do**. | Goruchwyliwr Gweinyddol Parcio yn sicrhau bod y codio yn gywir. | Dylid nodi bod hyn wedi bod yn cael ei gyflawni ers 07/03/2011) cyn diwedd yr ymchwiliad. Dirywion wedi cael ei 'codio' yn gywir |

**CYNLLUN GWEITHREDU** **ATODIAD 2**

**CYTUNDEB MAES PARCIO CANOLFAN MENAI BANGOR**

| Rhif Argymhelliad | Argymhelliad | Ymateb gan yr Uned Parcio | Sylwadau Rheolwr Parcio a Diogelwch y Ffyrdd | Cyfrifoldeb Gweithredu | Cyfrifoldeb Sicrhau Gweithrediad | Dyddiad Gweithredu Targed | Wedi Gweithredu Do/naddo | System/au rheoli | Sylwadau Pellach |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A1 | Dylid gofyn i weinyddwyr Cathco am Gyfrif Terfynol Maes Parcio Canolfan Menai er mwyn canfod os oes arian yn ddyledus i'r Cyngor yn unol â'r cymal rhannu elw o unrhyw arbedion cyfalaf o adeiladu'r ased. | Mae cyfleon yn codi erbyn hyn 08/11/2011 sydd yn agor opsiynau ar sut all y Cyngor ganfod yr arian at y dyfodol. | Cytuno gyda'r argymhelliad | Rheolwr Eiddo Corfforaethol | Pennaeth Gofal Cwsmer | 31/03/2011 | Do | | Trafodaethau a cytundebau wedi datblygu cyn dipyn yn yr wythnos diwethaf. |
| A2 | Dylid ymgymryd ag asesiad ariannol trwyadl o Gyfrifon cwmnïau cyn i Cyngor Gwynedd fentro i berthynas cytundebol ariannol. | Anodd iawn egluro beth ddigwyddodd i Cathco - llawer o gwmnïau wedi dioddef oherwydd y dirwasgiad. | | Swyddogion Comisiynu | - | O hyn allan | Do | | |
| A3 | Dylid rhoi dyddiad taladwy rhent mewn unrhyw brydles rhwng Cyngor Gwynedd a 3ydd parti. | Gall system i anfonebu'n awtomatig hefyd gael ei ddatblygu. | Cytuno gyda'r argymhelliad | Cyfreithwyr | Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol | O hyn allan | Do | | |
| A4 | Dylid rhoi cymal safonol mewn cytundebau prydles Cyngor Gwynedd i dderbyn rhent o flaenllaw heblaw bod rheswm digonol i dderbyn rhent fel ôl-ddyled yn unol â Rheolau Gweithdrefn Ariannol. | All hyn effeithio llwyddiant cytundebau o lefelau rhent. | | Rheolwr Eiddo Corfforaethol a'r Cyfreithwyr | Penaethiaid Cwsmer a Democratiaeth a Chyfreithiol | O hyn allan | Do | | |
| A5 | Dylid sicrhau bod unrhyw anfonebau cylchol yn cael eu codi ar system Dyledwyr ar y Cyfriflyfr. | Dim angen ymateb. | Cytuno gyda'r argymhelliad | Unedau Cyllid | Pennaeth Cyllid | O hyn allan | Do | | |
| A6 | Dylid nodi wrth y Gweinyddwyr mai prydles yn hytrach na rhydd-ddaliad yw maes parcio Canolfan Menai (Stryd y Deon) er mwyn cywiro'r 'Datganiad o Gynnig y Gweinyddwyr'. | Dim angen ymateb. | Cytuno gyda'r argymhelliad | Cyfreithwyr | Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol | 31/03/2011 | Do | | |
| A7 | Dylai unrhyw drafodaethau a gohebiaeth bellach am faes parcio Canolfan Menai gael ei gynnal drwy'r Gwasanaeth Tir ac Eiddo'r Cyngor a'r Gwasanaeth Cyfreithiol. | Dyma yw bwriad y Gwasanaeth Trafnidiaeth. | Cytuno gyda'r argymhelliad | Rheolwr Eiddo Corfforaethol | Pennaeth Gofal Cwsmer | O hyn allan | Do | | |

**CYNLLUN GWEITHREDU** **ATODIAD 3**
**UNED CLUDIANT INTEGREDIG**

| Rhif Argymhelliad | Argymhelliad | Ymateb gan yr Uned Cludiant Integredig | Sylwadau Rheolwr Uned Cludiant Integredig | Cyfrifoldeb Gweithredu | Cyfrifoldeb Sicrhau Gweithrediad | Dyddiad Gweithredu Targed | Wedi Gweithredu Do/naddo | System/au rheoli | Sylwadau Pellach |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A01 | Dylid adolygu cytundebau de minimis er mwyn sicrhau eu bod yn cynnig y gwerth gorau am arian i'r Cyngor.<br><br>Dylid ceisio defnyddio cytundebau de minimis mewn amgylchiadau sy'n cael eu hawgrymu gan Cod Ymarfer Da ATCO, sef (1) i wyro llwybr masnachol i wasanaethu ardaloedd na fyddai fel arall yn gallu cynnal gwasanaeth drwy dendr neu yn fasnachol; (2) er mwyn prynu llwybrau ar y Sul neu yn ystod y nos gan y cwmni sy'n gweithredu'r llwybr yn fasnachol ar yr oriau brig; neu (3) i brynu gweithiau bychan hyd at £6,000 y flwyddyn.<br><br>Dylid sicrhau bod cyfiawnhad a thystiolaeth ar ffeil cytundebau (sydd wedi eu gosod drwy dendr neu de minimis) yr Uned i ddangos tryloywder o sut a pham mae'r cytundeb wedi ei osod.<br><br>Nid yw cytundebau addysg yn ddarostyngedig i Ddeddf Trafnidiaeth ac felly nid yw cymal de minimis yn berthnasol i'r cytundebau hyn. Mae tebygolrwydd fod nifer o gytundebau addysg wedi eu gosod yn groes i reolau caffael. | Mae nifer o gytundebau sydd wedi ei sefydlu yn uwch na'r disgwyl ac ym marn Rheolwr ar Uwch Rheolwr ddim yn cynnig gwerth am arian. Dylid edrych yn fwy manwl ar hyn.<br><br>Cytuno<br><br>Cytuno<br><br>Cytuno bod rhaid cael trefn ar hyn. | Cytuno gyda'r argymhelliad<br><br>Cytuno gyda'r argymhelliad<br><br>Cytuno gyda'r argymhelliad<br><br>Cytuno gyda'r argymhelliad | Rheolwr Uned Cludiant Integredig | Prif Beiriannydd Trafnidiaeth a Gofal Stryd | 31/12/2011 | Do | Yn y broses o wella drwy'r Uned Drafnidiaeth Integredig newydd. | Llawer o waith i'w wneud i gael trefn a gallu dangos gwerth am arian. Wedi bod yn anodd yn y gorffennol i herio yr hyn oedd yr uned yn ei wneud. |
| A02 | Dylid sicrhau bod cyfiawnhad digonol i roi cymhorthdal de minimis i gwmnïau fel nad yw Cyngor Gwynedd yn cael eu cyhuddo o ffafriaeth at rai cwmnïau. Gweler argymhelliad A01 yn ogystal. | Cytuno | Cytuno gyda'r argymhelliad | Rheolwr Uned Cludiant Integredig | Prif Beiriannydd Trafnidiaeth a Gofal Stryd | 31/12/2011 | Do | | |
| A03 | Dylid cyfiawnhau rhoi cymhorthdal i unrhyw gwmni redeg llwybr bws drwy ystyried ffactorau megis poblogaeth llwybr, ardal gymdeithasol, llwybrau cludiant cyhoeddus eraill yn yr ardal a sefyllfa 'gor bussing'.<br><br>Dylai'r Uned sicrhau bod rhestr o gytundebau cludiant cyhoeddus Cyngor Gwynedd yn dangos yn union pa lwybrau sy'n cael cymhorthdal de minimis a chymhorthdal drwy dendr. | Cytuno<br><br>Sicr – gwaith yn cael ei ddatblygu ar hyn. | Cytuno gyda'r argymhelliad | Rheolwr Uned Cludiant Integredig | Prif Beiriannydd Trafnidiaeth a Gofal Stryd | 31/12/2011 | Do | | |
| A04 | Dylid fod yn ofalus wrth osod cytundebau de minimis gyda chwmnïau oherwydd y risg o 'gaming' a bod cwmni lleol i'r llwybr neu gwmni sydd yn rhedeg y llwybr yn barod yn derbyn cymhorthdal yn awtomatig. Mae rhoi cyfiawnhad ar ffeil fel tystiolaeth o'r dyfarniad yn hanfodol er mwyn tryloywder. | Cytuno | Cytuno gyda'r argymhelliad | Rheolwr Uned Cludiant Integredig | Prif Beiriannydd Trafnidiaeth a Gofal Stryd | 31/12/2011 | Do | | |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Dylai'r Uned baratoi Strategaeth ar weledigaeth a chyfeiriad Cyngor Gwynedd ynglŷn â chludiant cyhoeddus yr ardal. Dylai polisïau manwl wedyn gael eu datblygu fel atodiad i'r Strategaeth fel canllaw i swyddogion benderfynu os yw'n fuddiol cynnig cymhorthdal i lwybr arbennig ynghyd a pha rodfa o gymhorthdal sy'n addas - de minimis neu drwy gystadleuaeth. | Cytuno | Cytuno gyda'r argymhelliad | | | | Do | | Hyn wedi ei gynnwys yn Cynllun Busnes yr Uned newydd. |
| A05 | Dylid sicrhau bod tystiolaeth ar ffeil i allu cyfiawnhau gwerth am arian cytundebau de minimis. | Yn sicr - a dylai hyn fod wedi digwydd yn y gorffennol. | Cytuno gyda'r argymhelliad | Rheolwr Uned Cludiant Integredig | Prif Beiriannydd Trafnidiaeth a Gofal Stryd | 31/12/2011 | Do | | |
| A06 | Dylid sicrhau mai dogfen Cytundeb ffurfiol yw sail unrhyw berthynas cytundebol rhwng Cyngor Gwynedd a'r cwmnïau bws.<br><br>Dylid adolygu cytundebau Uned Cludiant Cyhoeddus er mwyn sicrhau eu bod bellach yn "fit for purpose". | Cytuno | Cytuno gyda'r argymhelliad | Rheolwr Uned Cludiant Integredig | Prif Beiriannydd Trafnidiaeth a Gofal Stryd | 31/12/2011 | Do | | Rhai contractau wedi eu datrys. Llawer iawn i'w wneud gan yr Uned i gwblhau'r dasg. |
| A07 | Ni ddylid gosod cytundebau de minimis am fwy nag uchafswm o 5 mlynedd. | Cytuno | Cytuno gyda'r argymhelliad | Rheolwr Uned Cludiant Integredig | Prif Beiriannydd Trafnidiaeth a Gofal Stryd | 31/12/2011 | Do | | |
| A08 | Dylid ail-atgoffa swyddogion o drefniadau mewnol yr Uned i gwblhau cytundebau (h.y. dim ond y Prif Beiriannydd Trafnidiaeth a Gofal Stryd i arwyddo cytundebau dan £50,000) a hefyd trefn seilio cytundebau Cyngor Gwynedd ar gyfer gweithiau dros £50,000. Wrth gyfrifo cytundeb dylid cyfrifo gwerth hyd y cytundeb yn hytrach na gwerth taliadau dan y cytundeb am un flwyddyn. | Hyn wedi ei wneud yn y gorffennol – ond achos wedi codi lle na wnaeth staff ddilyn y cyfarwyddiadau. | Cytuno gyda'r argymhelliad | Rheolwr Uned Cludiant Integredig | Prif Beiriannydd Trafnidiaeth a Gofal Stryd | 01/04/2011 | Do | | Arweiniad clir wedi ei roi i swyddogion yr Uned mewn perthynas â chydymffurfio gyda'r cyfarwyddyd. |